# Notice of Election
# Election of Councillors

# Hysbysiad o Etholiad
# Ethol Cynghorwyr

| Ward<br>Ward | Number of councillors to be elected<br>Nifer y Cynghorwyr a etholir |
|---|---|
| Abergavenny Town Council, Park Ward<br>Cyngor Tref Y Fenni, Ward Parc | 1 |

1. Nomination papers must be delivered to the Returning Officer no later than 4pm on the 17 October 2025
2. Nomination papers may be delivered to the Returning Officer at County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA between 10am and 4pm on any working day from the date of publication of this notice (excluding bank holidays) or electronically as per the arrangements set out in the electronic delivery statement below.
3. Nomination papers may be obtained from the Returning Officer either at the offices of the Council above or online at www.monmouthshire.gov.uk
4. If any election is contested the poll will take place on 13 November 2025
5. Applications to register to vote must reach the Electoral Registration Officer by 12 midnight on 28 October 2025. Applications can be made online: www.gov.uk/registertovote
6. Applications, amendments or cancellations of postal votes must reach the Electoral Registration Officer at County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA by 5pm on 29 October 2025
7. Applications to vote by proxy at this election must reach the Electoral Registration Officer at County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA by 5pm on 5 November 2025
8. Applications to vote by emergency proxy at this election must reach the Electoral Registration Officer at County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA by 5pm on 13 November 2025

1. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm ar 17 Hydref 2025
2. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA rhwng 10 am a 4 pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig a geir isod.
3. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau yn swyddfeydd y cyngor neu'n electronig drwy www.monmouthshire.gov.uk
4. Os ymleddir unrhyw etholiad, cynhelir yr etholiad ar 13 Tachwedd 2025
5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos 28 Hydref 2025. Gellir cyflwyno cais ar-lein: https://gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.
6. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA erbyn 5pm ar 29 Hydref 2025
7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA erbyn 5pm ar 5 Tachwedd 2025
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA erbyn 5pm ar 13 Tachwedd 2025

**Dated:** 9 October 2025
**Dyddiad:** 9 Hydref 2025

Paul Matthews
**Returning Officer**
**Swyddog Canlyniadau**

Printed and Published by the Returning Officer, Monmouthshire County Council, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA

## Electronic Delivery Statement

Nomination papers submitted electronically must be delivered in accordance with arrangements set out in this statement.

- By Email

  Nomination Papers can be submitted by email to elections@monmouthshire.gov.uk within the timeframe allowed for delivery of nominations.
  Candidates are encouraged to submit their nomination for checking prior to its formal submission and can do so using the same email address.
  Candidates will need to be mindful of the size of the files they are submitting and ensure they are delivered successfully and are clearly legible.
  Candidates will receive an automatic response once the nomination paper has been received by the Returning Officer.
  A follow up email will be sent to the candidate once the nomination paper has been processed and deemed valid.

- Using our online system

  Candidates can submit nominations to us through our online nomination system accessible through My Monmouthshire and on the following link:
  https://iweb.itouchvision.com/portal/itouchvision/r/customer/category_link?cuid=D9FA0BA3295246C578E75053361401AA8FC06951&lang=EN&P_LANG=en
  All instructions and requirements on submitting your nomination are provided as part of the process.
  When you submit the nomination paper, it will be initially submitted provisionally and once approved the relevant additional signatories will be emailed to carry out their actions required as part of the process.
  It will be the candidates responsibility to ensure all the necessary signatories are submitted before the close of nominations.
  If you need assistance with using the online system please contact the elections office on 01633 644212 or email elections@monmouthshire.gov.uk
  Once all signatories have been received the candidate will be emailed a confirmation that the nomination is complete and valid.

Please note it is the responsibility of the candidate to ensure that the Returning Officer receives completed nomination forms in the correct way and by the required deadlines.

An electronic read receipt from the Returning Officer is not confirmation that the nomination is valid. The Returning Officer will send a notice to inform candidates of their decision as to whether or not their nomination is valid.

**Datganiad Cyflwyno'n Electronig**

Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

- Drwy Ebost

  Gellir cyflwyno Papurau Enwebu drwy e-bost i elections@monmouthshire.gov.uk o fewn yr amserlen a ganiateir ar gyfer cyflwyno enwebiadau.
  Anogir ymgeiswyr i gyflwyno eu henwebiad i'w gwirio, cyn eu cyflwyno'n ffurfiol, a gallant wneud hynny gan ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost.
  Bydd angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o faint y ffeiliau y maent yn eu cyflwyno a sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus a'u bod yn amlwg yn ddarllenadwy.
  Bydd ymgeiswyr yn derbyn ymateb awtomatig unwaith y bydd y papur enwebu wedi dod i law'r Swyddog Canlyniadau.
  Anfonir e-bost dilynol at yr ymgeisydd unwaith y bydd y papur enwebu wedi'i brosesu a'i ystyried yn ddilys.

- Defnyddio ein system ar-lein

  Gall ymgeiswyr gyflwyno enwebiadau i ni drwy ein system enwebu ar-lein sy'n hygyrch drwy Fy Sir Fynwy.
  Darperir yr holl gyfarwyddiadau a gofynion ar gyflwyno'ch enwebiad fel rhan o'r broses ac ar y ddolen ganlynol:
  https://iweb.itouchvision.com/portal/itouchvision/r/customer/category_link?cuid=D9FA0BA3295246C578E75053361401AA8FC06951&lang=EN&P_LANG=en
  Pan fyddwch yn cyflwyno'r papur enwebu, caiff ei gyflwyno dros dro i ddechrau ac unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd y llofnodwyr ychwanegol perthnasol yn derbyn e-bsot er mwyn iddynt gyflawni eu gweithredoedd nhw, sy'n ofynnol fel rhan o'r broses.
  Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr fydd sicrhau bod yr holl lofnodwyr angenrheidiol yn cael eu cyflwyno cyn diwedd yr enwebiadau.
  Os oes angen cymorth arnoch i ddefnyddio'r system ar-lein, cysylltwch â'r swyddfa etholiadau ar 01633 644212 neu e-bostiwch elections@monmouthshire.gov.uk
  Unwaith y bydd yr holl lofnodwyr wedi dod i law, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost i gadarnhau bod yr enwebiad wedi'i gwblhau, ac yn ddilys.

Nodwch mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu wedi'u cwblhau yn y ffordd gywir ac erbyn y terfynau amser gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am eu penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.